Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Economic and Social Research Council

# Interniaethau PhD yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Cefndir

Caiff Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae hi'n gweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnal ymchwil i hybu dealltwriaeth o'r rhan y gall tystiolaeth ei chwarae wrth helpu i wneud polisïau gwell a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y Ganolfan ar gael yma www.wcpp.org.uk

Dyma bedwaredd flwyddyn ein Cynllun Interniaethau PhD sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr PhD a ariennir gan ESRC ac sydd wedi'u lleoli ar lwybrau Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol (DTP), dreulio tri mis yn y Ganolfan i gymhwyso a datblygu eu sgiliau a'u technegau ymchwil i faterion yn y byd go iawn am bynciau cyfoes iawn. Mae'r interniaethau hyn yn gyfle gwych i fyfyrwyr PhD gael profiad ymarferol o wneud ymchwil mewn sefydliad sy'n gweithio lle mae ymchwil a llunio polisïau yn cwrdd. Byddwch chi'n gweithio ochr yn ochr â staff sydd wedi ennill PhD ac sydd wrthi'n gweithio gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddarparu tystiolaeth i wella'r broses o lunio polisïau a chanlyniadau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae myfyrwyr PhD blaenorol wedi astudio'r pynciau canlynol:

- Defnydd Llywodraeth Cymru o offer polisi ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb
- Cydweithio a gweithredu polisi ar y lefel leol yng Nghymru
- Tystiolaeth o brofiad uniongyrchol wrth lunio polisïau anabledd
- Beth yw rôl tystiolaeth wrth lunio polisi atal hunanladdiad yng Nghymru?

Mae crynodeb o brofiad myfyrwyr PhD blaenorol ar gael yma ac yma.

Bydd yr interniaeth yn cynyddu dealltwriaeth yr ymgeiswyr o lunio polisïau yng Nghymru, yn ogystal â gwella eu sgiliau ymchwil (e.e. chwilio am lenyddiaeth/adolygu, dylunio cynllun ymchwil). Byddwch chi hefyd yn cael cyfle i ddatblygu ystod eang o sgiliau ymarferol (e.e. ysgrifennu adroddiadau, cyfathrebu, rheoli amser, gweithio mewn tîm, datblygu strategaethau effaith) a fydd yn hanfodol ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol. Bydd yr interniaeth hefyd yn galluogi'r ymgeisydd i ehangu ei rwydwaith ymhlith academyddion, llunwyr polisïau ac ymarferwyr yng Nghymru a'r tu hwnt.

Rydym ni'n croesawu ceisiadau am interniaethau sy'n archwilio rôl tystiolaeth wrth lunio polisïau a/neu effaith symud gwybodaeth. Gallai hyn fod mewn maes polisi penodol o'ch PhD neu'n fwy cyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth am feysydd ffocws a chwestiynau ymchwil posibl ar gael isod.

## *Meysydd ffocws a chwestiynau ymchwil posibl*

Mae angen cynyddol ymysg sefydliadau sy'n brocera gwybodaeth, fel Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a sefydliadau eraill sy'n cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus, i ddeall yn well sut mae tystiolaeth yn cael ei symud. Erbyn hyn, mae ymchwilwyr yn gwrthod modelau gor-syml ac yn ffafrio adroddiadau mwy cynnil, sy'n cydnabod tystiolaeth fel un rhan yn unig o brosesau polisi cymhleth. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys rhyngweithio rhwng nifer o actorion y mae normau sefydliadol, gwerthoedd, credoau a gwleidyddiaeth yn dylanwadu arnynt. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar sut mae tystiolaeth yn cael ei symud, ei throsi a'i defnyddio wrth lunio polisïau a dylunio/darparu gwasanaethau.

Bydd y prosiect yn adeiladu ar ein gwaith presennol ar froceriaid gwybodaeth a manteisio ar dystiolaeth er mwyn deall yn well sut a phryd y mae gwybodaeth ac arbenigedd sy'n deillio o ymchwil yn gallu dylanwadu ar bolisi ac ymarfer (yn genedlaethol neu'n lleol). Gallai'r prosiect hwn gynnwys astudio cymunedau polisi-tystiolaeth o amgylch maes polisi, neu archwilio'r cymunedau polisi-tystiolaeth o fewn ardal leol. Gallai'r ymgeisydd archwilio rhai o'r cwestiynau ymchwil canlynol:

- Pa fecanweithiau sy'n gweithio orau i annog cynhyrchu, trosglwyddo a defnyddio tystiolaeth?
- Pwy yw'r actorion sy'n ymwneud â chymuned polisi-tystiolaeth? Ble mae'r pŵer?
- Sut mae tystiolaeth sy'n deillio o ymchwil yn cael ei symud, ei throsi, ei defnyddio neu ei hanwybyddu wrth lunio polisïau ac ymarfer?
- Beth yw effaith broceriaid gwybodaeth ar bolisi a gwasanaethau cyhoeddus?
- Sut mae cyfansoddiad a swyddogaeth cymunedau polisi-tystiolaeth yng Nghymru yn cymharu â gwledydd eraill?

Fel arall, gall myfyrwyr gynnig pwnc o'u dewis eu hunain, gan gymhwyso diddordebau ac harbenigedd eu PhD i faes polisi y mae WCPP wedi gwneud gwaith ynddo. Dylech chi ganolbwyntio ar ein tri maes blaenoriaeth allweddol, sef Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, yr Amgylchedd a Sero Net, a Llesiant Cymunedol, a dadansoddi ein ôl-gatalog o adroddiadau i sicrhau bod cyfatebiaeth addas, a chysylltwch â'r Athro James Downe James.Downe@wcpp.org.uk yn gynnar i drafod cwmpas a siâp unrhyw gynnig cyn i chi ei gyflwyno.

Dylai'r interniaeth gysylltu'n agos â ffocws diddordebau eich PhD, er mwyn i chi allu bwrw iddi'n syth a chwblhau'r gweithgareddau o fewn tri mis. Byddwn ni'n gweithio gyda'r ymgeisydd i benderfynu ar y cwestiwn ymchwil terfynol ac i ddylunio cynllun ymchwil drafft cyn dechrau gweithio yn y Ganolfan.

Bydd yr ymchwilydd yn cymryd rhan mewn dadansoddiad dogfennol, adolygiad llenyddiaeth, cyfweliadau neu ddadansoddiad astudiaeth achos, a bydd yn ysgrifennu'r canfyddiadau. Dylid llunio a chyhoeddi adroddiad byr (tua 12 tudalen) ar y wefan yn crynhoi'r dull a ddefnyddir ac yn

amlinellu'r canfyddiadau. Bydd y prosiect yn ceisio cael effaith gyda pholisi/ymarferwyr yn ogystal â chynulleidfaoedd academaidd gan y bydd yn cynhyrchu gwybodaeth newydd am rôl tystiolaeth wrth lunio polisïau. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn ffordd hygyrch i helpu i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei defnyddio. Hefyd, bydd blog yn crynhoi'r ymchwil yn cael ei ddrafftio i'w gynnwys ar wefan y Ganolfan. Bydd yr ymchwilydd hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r ymchwil a'i throsi'n bolisi/ymarfer.

## Manyleb y myfyriwr

Ar gyfer pob interniaeth, byddem yn disgwyl i'r myfyriwr feddu ar y canlynol:

- Sgiliau ymchwil a dadansoddi cryf, gan gynnwys profiad o gynnal adolygiadau llenyddiaeth a dulliau ansoddol (e.e. cyfweliadau lled-strwythuredig).
- Profiad o waith dadansoddi ym meysydd polisi cymdeithasol neu gyhoeddus.
- Diddordeb mewn ysgrifennu dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, e.e. blogiau, crynodebau o ymchwil ac ati, wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd nad ydynt yn arbenigwyr.

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, ac amgylchedd ymchwil cynhwysol. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad amhrisiadwy ymchwilwyr o bob cefndir at ein gwaith. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer yr interniaethau hyn gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd, gan gynnwys myfyrwyr/ymchwilwyr ag anableddau, a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

## Hyd a dyddiad dechrau'r interniaeth

Byddai'r interniaeth yn para am gyfnod o dri mis ac wedi'i lleoli yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn sbarc|spark ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae staff yn gweithio yn y swyddfa am ddau ddiwrnod yr wythnos ac rydym yn annog y myfyriwr i wneud yr un fath. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer ysgoloriaeth ymchwil ran-amser, mae interniaethau hefyd ar gael ar sail ran-amser, a bydd angen trafod hyn gyda'r Ganolfan.

Rydym yn hyblyg o ran dyddiad dechrau'r interniaeth gan y bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael tri mis o estyniad â thâl i'w PhD, ar gyfradd fisol ddangosol o £2,149 y mis (ffioedd ac ariantal).

Gall Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru dalu costau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai'r ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau'r brifysgol. Fel arfer, ni fyddai disgwyl i fyfyriwr sydd wedi cofrestru yng Nghaerdydd hawlio costau teithio/llety. Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch ag info@wcpp.org.uk.

## Y broses ymgeisio

Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr ar *bob* llwybr. Os oes gennych ddiddordeb mewn interniaeth, dylech chi drafod y cyfle hwn yn gyntaf gyda'ch goruchwyliwr a chael ei gymeradwyaeth. Rydym hefyd yn eich cynghori'n gryf i gysylltu â Chyfarwyddwr Ymchwil y Ganolfan James.Downe@wcpp.org.uk i drafod eich syniadau ar gyfer y prosiect.

A fyddech cystal ag anfon llythyr cais a CV i info@wcpp.org.uk erbyn **dydd Gwener 11 Ebrill 2025**. Ni ddylai unrhyw ddogfen fod yn fwy na dwy ochr A4. Dylai eich llythyr amlinellu eich syniadau ar y dull methodolegol arfaethedig ar gyfer yr astudiaeth, a syniadau ar ffyrdd o ledaenu'r canfyddiadau. Dylech chi hefyd gadarnhau eich bod wedi cael cytundeb eich prif oruchwyliwr, awgrymu dyddiad dechrau, a chynnwys sut rydych yn teimlo y byddai'r interniaeth o fudd i'ch rhaglen Ddoethurol.

Mae'n debygol y bydd cyfweliad yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddethol, a bydd hwnnw'n cael ei gynnal dros MS Teams.